



# **Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol: Canllawiau ymgeisio**

## **PWRPAS CRONFA ADFER Y GWASANAETHAU GWIRFODDOL**

Mae'r sector gwirfoddol ar hyd a lled Cymru wedi chwarae rhan allweddol mewn cefnogi'r rheini mewn angen ledled cymunedau Cymru; gan daflu rhaff hanfodol i bobl gyda phethau fel cludo bwyd, gofal meddygol brys, sicrhau bod canllawiau'r llywodraeth yn cyrraedd pob cymuned a mynd i'r afael ag iechyd meddwl dirywiol.

Wrth i Lywodraeth Cymru lacio'r cyfyngiadau symud a phobl Cymru yn symud ymlaen, mae angen i'r cyllid ymateb i heriau newydd. Er bod y cyfyngiadau cymdeithasol yn llacio, mae llawer o bobl mewn sefyllfaoedd o argyfwng o hyd ac angen cymorth brys. Bydd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol (VSRF) yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ar draws cymdeithas o ganlyniad i bandemig Covid-19. Gwnaeth llawer o gymunedau ddioddef yn anghymesurol; felly, mae angen cymryd camau i sicrhau adferiad teg a chyfiawn. Bydd y cyllid hefyd yn cyflwyno'r adnoddau i'r Trydydd Sector ymwreiddio arferion diogel er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ledled Cymru.

Bydd CGGC yn gweinyddu'r VSRF yn yr un modd cadarn, ymatebol ac agored â Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol.

Bydd grantiau'n cefnogi mudiadau nid-er-elw sy'n gweithio ar raddfa gymunedol hyd at lefel genedlaethol yng Nghymru, a gallant fod rhwng £10,000 - £100,000. Gallwn ystyried ceisiadau y tu allan i'r amrediad hwn, ond cysylltwch â ni'n gyntaf ar [vsrf@wcva.cymru](mailto:vsrf@wcva.cymru) fel y gallwn ni drafod. Mae'r gronfa'n canolbwyntio'n bennaf ar gyllid refeniw; fodd bynnag, gall eich cais am gyllid gynnwys costau ar gyfer prynu cyfarpar 'cyfalaf' llai o faint, gan gynnwys defnyddiau traul (er enghraifft, cyfarpar diogelu personol, sgriniau ac ati).

I gael gwybodaeth am sut i gael gafael ar gyllid cyfalaf, cyfeiriwch at [Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru](#).

Nid yw'r VSRF yn gyfarwyddol, mae'r gronfa'n ymateb i anghenion darparwyr gwasanaethau'r sector gwirfoddol. Gall gweithgareddau gynnwys darparu gwasanaethau iechyd meddwl, iechyd a llesiant cymdeithasol ac addasu adnoddau cyflenwi bach er mwyn cydymffurfio â chanllawiau newidiol Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol ac ati.

Bydd gweithgarwch yn cael ei gyllido ar gyfer gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21. Gallwn ystyried ceisiadau lle y gallai'r gwariant ddigwydd y tu allan i'r flwyddyn ariannol hon oherwydd angen hanfodol, ond bydd angen dangos hyn yn eglur yn y cais am gyllid.

Mae'r ymateb i bandemig y Coronafeirws yn sefyllfa newidiol ac mae nifer o gronfeydd brys a chynlluniau cymorth wedi dod ar gael i fudiadau sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod y cyfnod hwn. Disgwyliwn y bydd ymgeiswyr â diddordeb wedi siarad â'u cyllidwyr cyfredol i drafod sut gellir defnyddio'r cyllid sy'n bodoli eisoes yn ystod y cyfnod hwn, ac wedi ystyried a yw cynlluniau brys COVID-19 eraill gan [Lywodraeth y DU](#) neu [Lywodraeth Cymru](#) yn fwy priodol. Rydyn ni'n eich annog yn gryf i asesu'r holl gynlluniau sydd ar gael ar gyfer eich mudiad ac i ddim ond gwneud cais ar gyfer y cyllid hwn os mai dyma'r un fwyaf priodol ar gyfer eich amgylchiadau unigol.

## **AMCANION Y GRANT**

- Cyllido adferiad teg a chyfiawn ar gyfer pobl yng Nghymru
- Gweithio tuag at leihau anghydraddoldebau sydd wedi gwaethygu yn sgil pandemig Covid-19 ac atal anghydraddoldebau sy'n ymddangos rhag sefydlu mewn cymunedau
- Cyllido addasiadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu darparu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi'u heffeithio gan bandemig Covid-19, yn unol â gofynion y llywodraeth

## **CANLLAWIAU COVID-19**

Mae angen ystyried llawer o ddogfennau canllaw pwysig wrth ddatblygu gweithgareddau;

- Bydd diweddariadau cyson i ganllawiau gan [Llywodraeth Cymru](#)
- Canllawiau ar agor manau cymunedol yn ddiogel  
[http://wcva.cymru/cy/canllawiau\\_ar\\_gyfer\\_ailagor\\_canolfannau\\_cymunedol\\_yng\\_nghymru/](http://wcva.cymru/cy/canllawiau_ar_gyfer_ailagor_canolfannau_cymunedol_yng_nghymru/)
- Mae CGGC yn casglu canllawiau allweddol ar gyfer y sector  
<https://wcva.cymru/cy/datganiad-ar-y-coronafeirws/>

## YDY EICH MUDIAD YN GYMWYS I YMGEISIO?

**Gall** eich mudiad ymgeisio:

- Os ydyw yn fudiad y trydydd sector/y sector wirfoddol (nid-er-elw) ac yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sectorau preifat a chyhoeddus:
  - Elusen gofrestrdedig
  - Grŵp sefydledig
  - Cwmni Buddiannau Cymunedol
  - Sefydliad Corfforaethol Elusennol
  - Cwmni cyfyngedig trwy warant
  - Cwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau lle delir yr holl gyfranddaliadau gan un o'r uchod (h.y. is-gwmni busnes cymdeithasol sy'n berchen yn gyfan gwbl i elusen)
  - Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (IPS) ar ffurf Cymdeithas Budd Cymunedol (BenCom)
  - Cwmnïau cydfuddiannol
- Os bydd y cyllid ar gyfer gweithgareddau/gwasanaethau/cymunedau yng Nghymru
- Os oes gan eich mudiad o leiaf 2 lofnodwr awdurdodedig
- Os oes gan eich mudiad ei gyfrif banc ei hun neu gyfrif yn enw 'Ymddiriedolwyr [enw'r mudiad]'

Ni all eich mudiad ymgeisio os ydych:

- Yn fudiad gwleidyddol
- Yn fudiad statudol
- Yn fudiad preifat
- Yn unigolyn
- Yn grŵp sefydledig

Rhaid i bob cais am gyllid fod ar gyfer gweithgaredd yng Nghymru yn unig.

Nodwch, os gwelwch yn dda, mai un cais yn unig y gellir ei wneud gan yr un mudiad ar MAP. Fodd bynnag, gallwn dderbyn ceisiadau sy'n berthnasol i weithgareddau a gyflenwir ar draws sawl ardal, wrth raddfa ac sy'n cynnwys canghennau o'r un mudiad. Fel arall – os yw canghennau eich mudiad wedi'u cyfansoddi ar wahân, gallwch wneud cais ar wahân.

Os ydych yn fudiad cenedlaethol, bydd angen i chi ddangos sut rydych yn gweithio gyda mudiadau lleol a rhanddeiliaid, tra hefyd yn sicrhau nad oes dyblygu.

## **YR HYN NA ELLIR EI GYLLIDO O DAN VSRF**

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol, h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi
- Ni fydd gweithgareddau sy'n syrthio o fewn y sector statudol yn cael eu cefnogi, ee unrhyw beth sy'n syrthio o fewn darpariaeth y GIG, cwricwlwm yr ysgol ac ati
- Pan fo grantiau eraill ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol, disgwylir y bydd y rhain yn cael eu defnyddio lle'n bosibl, yn hytrach na VSRF
- Gwasanaethau llinell gymorth ffôn
- Mentrau cyflogadwyedd a sgiliau
- Gweithgareddau proselyteiddio
- ddarparwyr gofal plant
- Gall costau TG gael eu hystyried mewn achosion lle mae pryniannau'n hanfodol, os hoffech gyflwyno cais gyda chostau TG, cysylltwch â'r tîm i drafod cyn cyflwyno cais

## **Y BROSES YMGEISIO**

1) Gellir cyflwyno ceisiadau trwy Borth Ymgeisio Amlbwrpas (PYA) CGGC.

Bydd angen i'ch cais ddangos:

- Beth yw pwrpas y cyllid – gweithgareddau / adnoddau / anghenion staffio penodol
- Profiad ac arddangos angen
- Manylion gwariant syml
- Esboniad o'r mesurau rheoli risg sy'n cael eu rhoi y neu lle er mwyn amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr.
- Tra deallwn fod mudiadau yn darparu gwasanaethau hanfodol yn eu cymunedau, rhaid i ni sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â canllawiau diogelwch Llywodraeth Cymru a

Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn amddiffyn y unigolion risg uchel ar rhai sydd yn ei cefnogi nhw.

- Bydd effaith or cyllid
- Os byddwch yn gweithio gydag oedolion a phlant agored i niwed, bydd yn ofynnol i chi ddarparu eich polisi(au) diogelu.
- Prawf o gyfrif banc cymunedol / sefydliad e.e. datganiad banc wedi'i sganio neu ei lawrlwytho ac enwau ei lofnodwyr

- 2) Caiff ceisiadau eu hadolygu wrth gael eu derbyn a'u categoreiddio, fel yr amlygir o dan 'Blaenoriaethau'r grant'. Nid oes dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau.
- 3) Bydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo gan banel as y sail cyntaf i'r felin er mwyn osgoi oedi.
- 4) Bydd hysbysiadau o gyllid a thaliadau yn cael eu hanfon ar ffurf BACs.

## **PCA**

Er mwyn ceisio am arian, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Cais Amlbwrpas WCVAs (PCA). Os ydych chi eisoes wedi cofrestru gydag PCA, gallwch fewngofnodi trwy nodi'ch defnyddiwr a'ch cyfrinair newydd ar y sgrin gartref.

Gall sefydliadau gofrestru trwy ymweld â'r wefan: <https://map.wcva.cymru>.

Os oes angen help arnoch i gofrestru ar MAP dilynwch y [fideo](#) hon.

## **CEFNOGAETH AC ARWEINIAD PELLACH**

**E-bost:** [vsrf@wcva.cymru](mailto:vsrf@wcva.cymru)

**Rhif cyswllt:** 0300 111 0124

**Rhestr gyswllt Cyngorau Gwirfoddol Sirol:**  
<https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu>